



Ein thema yn Blwyddyn 1 a 2 am y tymor nesaf yw **Dathliadau**.

Fel dosbarth, rydym wedi dewis canolbwyntio ar rai dathliadau yn arbennig sef Blwyddyn Newydd Tsieniaidd, Priodas (Santes Dwynwen/Cariad), Dydd Gwyl Dewi, Sul y Mamau, bywyd newydd (Torgoch)

Dyma flas o'r gweithgareddau bydd yn mynd ymlaen yn y dosbarth yn ystod y tymor.

<p><u>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu</u></p> <ul style="list-style-type: none"> *Gwrando ar stori Ras Anifeiliaid y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. *Labelu'r anifeiliaid *Darllen a deall sut ydym yn dathlu Blwyddyn Newydd Tsieineaidd. *Ysgrifennu archeb bwyd Tsieineaidd wrth chwarae rol. *Stori 'Priodas y Ddau Bwgan Brain' - odl, ansoddeiriau, ychwanegu newid i'r stori, rhestr. *Cynllun iaith Aled Afal 	<p><u>Dyniaethau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> *Dysgu am Tsieina a'r diwylliant Tsieineaidd – adeiladu Wal Fawr Tsieina. *Cynllunio mis mel ar gyfar y bwgan brain - Ble allen nhw fynd? Sut byddant yn teithio? 	<p><u>Mathemateg a Rhifedd</u></p> <ul style="list-style-type: none"> *Trefnolion (cyntaf, ail, trydydd....) defnyddio stori'r anifeiliaid yn Stori y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd i'w trefnu. *Arian – Rhoi'r nifer cywir o arian mewn amlenni coch lwcus, cyfri faint o arian, rhoi newid (gweithio o fewn 10c, 20c, 50c, £1) *Cofnodi tymheredd tanc dwr wyau'r torgoch yn ddyddiol.
<p><u>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</u></p> <ul style="list-style-type: none"> *Pam mae ffermwyr yn rhoi bwgan brain yn eu caeau? *Cynnyrch ar y fferm - o ble mae nhw'n dod? *Creu gwahoddiad i'r briodas JiT5 *Gwneud fideo o briodas y dosbarth gan ychwanegu cerddoriaeth ac effeithau. *Cylch bywyd y Torgoch *Ymchwilio i gynefin y torgoch ac amodau byw. 	<p><u>Celfyddydau Mynegianol</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu llusernau i addurno'r dosbarth. • Creu draig dosbarth enfawr! *Dylunio dillad priodas i'r ddau fwgan brain. *Dylunio cardyn priodas *Gosod blodau ar gyfer priodas *Creu model o fwgan brain 	<p><u>Iechyd a Lles</u></p> <ul style="list-style-type: none"> *Creu casgliad o symudiadau er mwyn creu dawns yn dathlu'r flwyddyn newydd *Creu poster ar sut i gadw'n iach *Sut mae'r anifeiliaid wedi helpu i drefnu'r briodas—Sut allwn ni helu eraill

Ein bwriad ar ddiwedd yr uned yw i gynnal priodas ein hunain! Bydd y plant yn cael y cyfle i drefnu'r briodas ac felly byddwn yn ddiolchgar o gymorth unrhyw un fyddai'n fodlon gyda rhai o'r trefniadau e.e lleoliad, gosod blodau, tynnu lluniau, addurniadau, dilladau, hetiau ayyb Bydd y plant yn cael cyfle i wisgo fyny ar y diwrnod mawr (dyddiad i ddilyn!) Rhowch wybod drwy nodyn os ydych yn fodlon helpu neu yn adnabod rhywun fyddai'n gallu neu am unrhyw syniadau posib!

Diolch am eich cefnogaeth barhaus

Mrs Jones ac Anti Carol

Uned o waith Mathemateg am y tymor:

- Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig - wrth adio, tynnu, lluosu a rhannu.
- Defnyddio ffeithiau rhif

Sut allwch chi helpu eich plentyn mewn mathemateg a rhifedd yn ystod y tymor.

Adio a thynnu - adio a thynnu o fewn 10/20/100, bondiau rhif at 10/20/100, deall gwerth lle wrth adio mwy na 10 e.e $10 + 2 = ?$, adio a thynnu 0, adnabod gwahaniaeth rhwng dau rif wrth gyfri mlaen, deall fod angen rhoi rhif mwyaf yn gyntaf wrth dynnu, Perthynas ag adio(gwrthdroi) - ffaith adio yn gyfateb i ffaith dynnu e.e $5 + 3 = 8$ $3 + 5 = 8$ $8 - 5 = 3$ $8 - 3 = 5$

Lluosi a Rhannu - Cyfri ymlaen ac yn ôl fesul 1, 2, 5 a 10, gosod gwrthrychau mewn parau/grwpiau o 3,5,10 - sawl grŵp o 2 mewn 10? Sawl hosan mewn 6 pâr? Dwbl a hanner rhifau o fewn 10/20

Ffeithiau Rhif (Cyfri a gwerth lle) - darllen ac ysgrifennu rhifau at 10/20/100

YMARFER FFURFIO RHIFAU YN GYWIR, cyfri hyd at 20 gwrthrych, gosod rhifau coll ar linell rif/sgwâr 100, pa un sydd ar gwerth mwyaf/lleiaf - faint yn fwy/llai?

Cofiwch! Mae pob plentyn yn datblygu ac yn dysgu ar amseroedd gwahanol. Cychwynwch drwy weithio gyda rhifau o fewn 10, yna pan mae'ch plentyn yn hyderus yn gweithio o fewn 10 ewch ymlaen i weithio gyda rhifau o fewn 20 ac yna ymlaen at 100.

Our Mathematics unit for the term:

- Calculation using mental and written methods - when adding, subtracting, multiplying and dividing.
- Use number facts

How you can help your child in maths and numeracy during the term.

Addition and subtraction - add and subtract within 10/20/100, number bonds to 10/20/100, understand place value when adding more than 10 e.g. $10 + 2 = ?$, add and subtract 0, recognizing the difference between two numbers when counting forward, understanding that it is necessary to put the largest number first when subtracting, Relationship with addition (reverse) - fact of addition corresponds to fact of subtraction e.g. $5 + 3 = 8$ $3 + 5 = 8$ $8 - 5 = 3$ $8 - 3 = 5$

Multiplication and Division - Count forwards and backwards by 1, 2, 5 and 10, place objects in pairs/groups of 3,5,10 - how many groups of 2 in 10? How many socks in 6 pairs? Double and half numbers within 10/20

Number Facts (Counting and place value) - read and write numbers to 10/20/100
PRACTICE FORMING NUMBERS CORRECTLY, count up to 20 objects, place missing numbers on a number line/100 square, which one has the largest/smallest value - how much more/less?

Remember! All children develop and learn at different times. Start by working with numbers within 10, then when your child is confident working within 10 go on to work with numbers within 20 and then on to 100.